

Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

CYLCHLYTHYR CYNLLUN CYNORTHWYO GWAED HEINTIEDIG CYMRU (WIBSS) *Ebrill 2022*

Taliadau

Gweler isod am y cyfraddau newydd sy'n daladwy o 1 Ebrill 2022. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni.

Taliadau Parhaus	Cyfraddau WIBSS Ebrill 22/23	Cyfradd ar 75% ar gyfer partneriaid/priod mewn profedigaeth
Hep. C Cam 1	£19,498	£14,629
Cam 1+ Uwch	£29,569	£22,177
Hep. C Cam 2	£29,569	£22,177
HIV	£29,569	£22,177
Cyd-heintiedig (HIV a Cham 1)	£40,135	£30,103
Cyd-heintiedig (HIV a Cham 2)	£46,469	£34,852
Cyd-heintiedig (HIV a Cham 1+)	£46,469	£34,852
Tanwydd gaeaf (i'w dalu ym mis Hydref)	£561	£561

Adborth Gwasanaeth

Diolch i bawb a gyfrannodd at ein harolwg boddhad. Mae'r canlyniadau manwl bellach ar gael ar ein gwefan. Os byddai'n well gennych gael copi papur, cysylltwch â ni a byddem yn hapus i bostio'r rhain atoch.



CYSYLLTWCH Â

Cysylltwch â WIBSS ar
02920 902280 neu
anfonwch e-bost at
wibss@wales.nhs.uk

Os nad yw eich galwad yn cael ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt a byddwn yn eich ffonio yn ôl yn byrdlon.


Ar gyfer Seicoleg a Llesiant anfonwch e-bost at:

wibss.wellbeing@wales.nhs.uk

Cyswllt Diweddar

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod o WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02920 902280**.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

HAWL I FUDD-DALIADAU

Darparu cyngor cyfrinachol i chi a'ch teulu ynglŷn â Budd-daliadau, Arian, Eiriolaeth, Cymorth a mwy.

Ar ôl ymgynghori â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), mae eich Tîm Budd-daliadau bellach wedi derbyn llythyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r sawl sy'n cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Mae hyn yn cynnwys yr unigolion hynny sy'n cael Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) (Seiliedig ar Incwm), Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) (Seiliedig ar Incwm), Budd-dal Tai, Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor, Credydau Treth Gwaith a Phlant.

Amgaeir copi ar gyfer eich cofnodion. Mae'r DWP wedi gofyn i chi gadw'r llythyr hwn mewn lle diogel rhag ofn y bydd angen i chi wneud cais am fudd-dal yn y dyfodol, neu os byddwch yn cael unrhyw ymholiadau am daliadau a gewch.

Er bod angen i'r DWP wybod am daliadau WIBSS, ni fyddant yn eu cynnwys fel incwm neu gyfalaf pan fyddant yn cyfrifo'ch budd-dal. **Nid** oes angen ichi ddweud wrthynt am unrhyw daliadau blaenorol o'r cynlluniau cymorth gwaed heintiedig.


Sut ydw i'n hysbysu'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)?

Dim ond os ydych yn derbyn budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd ar hyn o bryd **ac nad** yw'r DWP eisoes yn ymwybodol o'ch taliadau WIBSS y bydd angen i chi gymryd camau. **Os nad ydych yn derbyn** Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, ESA (Seiliedig ar Incwm), JSA (Seiliedig ar Incwm), Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor, Credydau Treth Gwaith a Phlant, **nid oes angen i chi hysbysu unrhyw un.**

Mae WIBSS yn dymuno gwneud y broses hysbysu mor ddi-straen â phosibl i chi. Felly, rydym wedi amgáu llythyr templed, i chi ei lenwi gyda'ch amgylchiadau personol eich hun a symiau talu WIBSS, y gallwch wedyn ei bostio'n uniongyrchol i'r DWP. Llenwch bob adran o'r tabl, llofnodwch, ysgrifennwch eich enw mewn print bras a nodwch y dyddiad, yna postiwch i'ch adran DWP berthnasol. Mae'r cyfeiriad cyswllt i'w ddefnyddio yn amrywio o unigolyn i unigolyn. Fodd bynnag, bydd y cyfeiriad ar unrhyw un o'r llythyrau yr ydych wedi'u derbyn am eich budd-daliadau neu ar www.gov.uk.

Yn olaf, hoffem eich sicrhau NA fydd datgan eich taliadau WIBSS yn newid eich hawl i fudd-daliadau. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir i'r DWP yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn, neu os hoffech gael cymorth ynglŷn â hysbysu'r DWP, ar gyfer llenwi'ch ffurflen neu unrhyw gymorth arall gan y tîm Hawl i Fudd-daliadau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 02920 902280.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

TÎM SEICOLEG A LLESIANT

Cynhaliwyd y Grŵp Ffocws Llesiant WIBSS diweddar (a gynhaliwyd trwy Zoom oherwydd cyfyngiadau Covid) gan Caroline Coffey a Julie Armytage o Wasanaeth Seicoleg a Llesiant WIBSS. Gwahoddwyd holl aelodau WIBSS a daeth criw bach ond bywiog ar y noson. Gofynnwyd i'r aelodau am eu syniadau i ddatblygu'r Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant. Roedd cytundeb ynghylch creu cyfleoedd cefnogaeth gan gymheiriaid a dod â phobl at ei gilydd fel cymuned, drwy rannu profiadau. O ganlyniad, cytunwyd ar y syniadau canlynol, i'w cyflwyno i gymuned ehangach WIBSS am eu mewnbwn a'u barn:

- 1) Zoom rheolaidd a/neu gyfarfodydd rhanbarthol wyneb yn wyneb, i alluogi pobl i ddod at ei gilydd a thrafod themâu a phynciau cyffredin yn ymwneud â llesiant a rhannu profiadau unigol.
- 2) Digwyddiad cymdeithasol rhanbarthol grŵp, i ddod â phawb sydd wedi'u heintio a'u heffeithio at ei gilydd, gyda'r nod o greu cymuned gyffredin. Gallai'r digwyddiad o bosib gwmpasu gweithdai gyda chyfleoedd seico-addysgol, cysylltiadau i hyrwyddo cefnogaeth gan gymheiriaid a siaradwyr gwadd.
- 3) Creu system 'gyfeillio', lle gall pobl gofrestru eu diddordeb mewn cael eu paru ag eraill yn eu cymuned (grwpiau bach neu un-i-un), i leihau teimlo'n ynysig a chreu cysylltiadau ag eraill trwy rannu profiadau a chefnogaeth gan gymheiriaid.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o unrhyw un o'r rhain, os hoffech ragor o wybodaeth, neu os hoffech wneud sylw ar unrhyw un o'r syniadau hyn, mae croeso i chi gysylltu â Julie ar 02920196141 neu anfon e-bost ar; Wibss.WellBeingService@wales.nhs.uk. **Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd.**

Dymunwn wanwyn hyfryd i chi gyd,

Tîm WIBSS

